

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-06-1199

Ein cyf/Our ref: JMSS/10375/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

23 Medi 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Medi yn gofyn am fy marn ar y ddeiseb 'Dylid gosod Gwasanaethau Plant Caerdydd mewn mesurau arbennig, a chynnal adolygiad annibynnol ar frys'.

Mae'r pandemig wedi ei gwneud yn eithriadol o heriol i awdurdodau lleol a'r gweithlu gefnogi plant a theuluoedd sy'n agored i niwed yn eu cymunedau. Mae gwydnwch, gwaith caled a chreadigrwydd y gweithlu gofal cymdeithasol plant, awdurdodau lleol a phartneriaid wrth ymateb i'r heriau hyn yn dal i greu cryn argraff arnaf.

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau'n ymroddedig i weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn dal i roi blaenoriaeth i'r gwaith o gyflawni a datblygu eu hymyriadau cynnar a'u gwasanaethau ataliol, ac ar wella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Mae hyn yn cyd-fynd â'n hamcanion polisi parhaus i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal a chefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd. Bydd y nodau polisi hyn yn helpu ein hawdurdodau lleol i sicrhau gwell canlyniadau i blant a theuluoedd sy'n agored i niwed yn eu cymunedau.

Rydym yn cysylltu'n rheolaidd â gwasanaethau plant awdurdodau lleol ac rydym yn ymwybodol o'r cynnydd y maent yn ei wneud o ran cyflawni ein hamcanion cyffredin ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant a phobl ifanc sydd ar ffiniau gofal. Mae mecanweithiau cadarn ar waith i sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau plant o ansawdd uchel i'w cymunedau. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn chwarae rhan bwysig drwy roi sicrwydd annibynnol am ansawdd gwasanaethau cymdeithasol plant yng Nghymru. Caiff holl wasanaethau cymdeithasol plant awdurdodau lleol eu hadolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru drwy gylch perfformiad, gwerthuso ac arolygu blynyddol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn mabwysiadu agwedd gymesur, sy'n seiliedig ar risg, tuag at eu gwaith ac yn cymryd camau i leihau'r risg i ddiogelwch a llesiant plant ac maent yn sicrhau bod mesurau gwella yn cael eu cymryd pan fydd pryderon yn dod yn amlwg. Os oes gan Arolygiaeth Gofal Cymru bryderon difrifol nad yw plant yn cael eu diogelu'n ddigonol, caiff materion eu huwchgyfeirio er mwyn i Lywodraeth Cymru, o dan adran 151 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gymryd rhan ac ymyrryd ynddynt.

Rwyf wedi manteisio ar y cyfle yn ddiweddar, mewn gohebiaeth â'r Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd o Gyngor Caerdydd, i dynnu sylw at ein ffocws parhaus ar gefnogi ein plant a'n teuluoedd mwyaf agored i niwed. Soniais hefyd ein bod am sicrhau bod gwahanol adrannau o'r awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd i leddfu'r pwysau sy'n parhau a darparu gwasanaethau cynaliadwy.

Gobeithiaf fod fy ymateb yn ddefnyddiol ichi a'ch bod wedi nodi'r mesurau diogelu sydd ar waith a fyddai'n arwain, pe bai angen, at ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwasanaeth plant awdurdod lleol.

Yn gywir,



Julie Morgan AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services